

Cyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Rhifyn 6

Nodir isod gyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

LLYTHRENNEDD: DARLLEN

Yn gyffredinol, wrth ddarllen drwy'r cylchgrawn, mae cyfleoedd i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan drwy

- ddefnyddio'ŷu gwybodaeth am darddiad a theuluoedd geiriau (e.e. yn yr adrannau **Beth ydy ...?** a thrwy dynnu sylw at berthynas rhai geiriau â'i gilydd, e.e. yn y darn **Lluniau lliwgar**, dangosir y berthynas rhwng **lliw** a **lliwgar**, **cysgu** a **cysglyd**, **fflam** + **coch** > **fflamgoch**)
- defnyddio'ŷu gwybodaeth o gystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
- defnyddio'ŷu gwybodaeth o gynnwys a chyd-destun.

Mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio ystod o strategaethau, e.e. *darllen cyflym*, *darllen agos*, *anodi*, *rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt

Yn fwy penodol, mae cyfleoedd i:

- ddilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil, e.e. yn y darnau **Dewch i ...**, **Pwy ydw i?**, **Cartref cyfforddus**, **Ai ai**, **Lluniau lliwgar** a **Rhyfedd!**

LLYTHRENNEDD: LLAFAREDD

Yn gyffredinol, wrth ymateb ar lafar i'r darnau darllen, mae cyfleoedd i:

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys.

LLYTHRENNEDD: YSGRIFENNU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Wrth ymgymryd â gwaith ysgrifennu, mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu
- nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio
- defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau
- ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. *dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnodau)*, a *defnyddio collnodau'n gywir*
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

RHIFEDD: DEFNYDDIO SGILIAU DATA

-
- Ar ôl gwyllo'r ffilm **Beth sy yn y bocs?**, mae cyfleoedd i drafod colled ac elw.
- Wrth drafod ffilmiau, mae cyfle i gasglu eu data eu hunain drwy lunio holiadur ac i greu a dehongli graffiau.